**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFIHANGEL-AR-ARTH**
**COMMUNITY COUNCIL**

# DATGANIAD GWELEDIGAETH A PHWRPAS

Mabwysiadwyd/
Adopted:

21.10.2024

**CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH**

**DATGANIAD GWELEDIGAETH A PHWRPAS**

Bydd Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth bob amser yn ymdrechu i weithio gyda thrigolion a'r rhanddeiliaid i geisio gwneud yr ardal gyfan a wasanaethir gan y Cyngor (sef pentrefi/cymunedau Llanfihangel-ar-arth, Pencader, Pontweli, New Inn, Gwyddgrug, Dolgran ac Alltwalis a'r ardaloedd o'u cwmpas), yn le diogel, deniadol ac heddychlon i fyw ac i weithio ynddo. Bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu mewn modd sydd yn dryloyw, cynaliadwy, amgylcheddol-gyfeillgar ac yn gost-effeithiol.

---

**1.0 Pwrpas**

| | |
|---|---|
| 1.1 | I ddeall a chynrychioli diddordebau lleol, ac i ymateb i anghenion y gymuned. |
| 1.2 | I weithredu fel y man cyswllt cyntaf i alluogi trigolion nodi eu pryderon (ar gyfer materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt). |
| 1.3 | I gyflwyno barn ynglyn â cheisiadau cynllunio a chynorthwyo i wella'r amgylchedd lleol. |
| 1.4 | I gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol er lles y gymuned ehangach. |
| 1.5 | I ddarparu arweiniad ac annog trigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol. |
| 1.6 | I ddenu cymorth a chefnogaeth oddi wrth y llywodraeth a'r Cyngor Sir, yn ogystal â grantiau ariannu a loteri ar gyfer yr ardal. |

**2.0 Amcanion**

| | |
|---|---|
| 2.1 | I geisio gwneud yr ardal gyfan a wasanaethir gan y Cyngor (sef pentrefi/cymunedau Llanfihangel-ar-arth, Pencader, Pontweli, New Inn, Gwyddgrug, Dolgran ac Alltwalis a'r ardaloedd o'u cwmpas), yn le diogel, deniadol ac heddychlon i fyw ac i weithio ynddo. |
| 2.2 | I ddiogelu, hyrwyddo a gwella prif wasanaethau'r gymuned, ei asedau a'r amgylchedd. |
| 2.3 | I hyrwyddo rôl y Cyngor a gwella'r modd mae'n cyfathrebu gyda'r gymuned ehangach. |
| 2.4 | I hyrwyddo ac annog rhyngweithio ac ymrwymiad cymdeithasol ar draws y gymuned gyfan. |
| 2.5 | I weithio'n agos ac yn effeithiol gyda rhanddeiliaid presennol a phartneriaid dichonol. |
| 2.6 | I weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon, ac i gyflawni disgwyliadau ynghylch rheolaeth ariannol. |

**3.0 Dulliau**

| | |
|---|---|
| 3.1 | Defnyddio adnoddau ariannol a gwirfoddol sydd ar gael i ddarparu amcanion craidd. |
| 3.2 | Cynnal trafodaethau agored a pharhaus gyda thrigoloion er mwyn deall eu anghenion yn glir. |
| 3.3 | Annog a chefnogi adrannau llywodraethol eraill a mudiadau preifat i ddarparu gwasanaethau i'r ardal. |
| 3.4 | Annog cydweithio gyda phob sefydliad arall sydd yn gallu cynorthwyo er mwyn ymateb i anghenion y gymuned. |
| 3.5 | Sicrhau bod cynghorwyr wedi derbyn hyfforddiant addas ac yn cadw i fyny gydag arferion- gorau cynghorau cymuned. |
| 3.6 | Sicrhau bod cyflogeion y Cyngor, e.e. y Clerc, yn cael eu rheoli'n briodol ac yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol ac yn effeithlon. |

---